# Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir

# 31 Hydref 2016

## SL(5)019 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995 mewn perthynas â blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2017 neu wedi hynny. Caiff y rheoliadau eu diwygio er mwyn sicrhau bod premiymau'r dreth gyngor yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifiad o'r sylfaen treth gyngor. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 drwy fewnosod adran newydd 139 sy'n galluogi awdurdod bilio yng Nghymru i gymhwyso premiwm treth gyngor mewn perthynas â chartrefi sy'n wag dros y tymor hir ac ail gartrefi. Caiff y diwygiadau i'r rheoliadau hyn eu gwneud o ganlyniad i'r diwygiadau uchod i'r Ddeddf.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf Tai (Cymru) 2014; Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

**Fe'u gwnaed ar**: 5 Hydref 2016

**Fe'u gosodwyd ar**: 7 Hydref 2016

**Yn dod i rym ar**: 28 Hydref 2016